# Dylunio a gwerthuso rhaglenni hyfforddiant ar gyfer unigolion sydd yn gweithio gydag anifeiliaid

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â dylunio a gwerthuso rhaglenni hyfforddiant ar gyfer unigolion sydd yn gweithio gydag anifeiliaid.

Mae'r safon yn cynnwys dylunio a datblygu rhaglenni hyfforddiant ar gyfer unigolion sydd yn gweithio gydag anifeiliaid trwy osod amcanion a thargedau. Mae hefyd yn cynnwys gwerthuso'r gwaith o weithredu rhaglen hyfforddiant a chynnydd y person a'r anifail cysylltiedig.

Dylai'r holl weithgareddau gael eu cynnal yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Bydd angen i ddefnyddwyr y safon fod wedi cael hyfforddiant addas a chadarnhau bod eu hymarfer yn cydymffurfio â safonau a pholisïau trugarog, a'u bod yn gweithio o fewn terfynau eu hawdurdod, arbenigedd, hyfforddiant, cymhwysedd a'u profiad.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer y rheiny sydd yn dylunio ac yn gwerthuso rhaglenni hyfforddiant ar gyfer unigolion sydd yn gweithio gydag anifeiliaid.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gweithio'n broffesiynol ac yn foesegol ac o fewn terfynau eich awdurdod, arbenigedd, hyfforddiant, cymhwysedd a'ch profiad
2. gwneud eich gwaith yn unol â'r ddeddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, gofynion asesu risg, codau ymarfer cysylltiedig a pholisïau sefydliadol
3. gwneud eich gwaith yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol iechyd a lles anifeiliaid ac yn ymwneud ag anifeiliaid, codau ymarfer cysylltiedig a pholisïau sefydliadol
4. asesu sut i ddarparu ar gyfer anghenion lles yr anifeiliaid yr ydych yn gweithio gyda nhw
5. cadarnhau diben a'r canlyniadau a fwriedir ar gyfer yr hyfforddiant gyda'r rheiny sydd yn gysylltiedig
6. cael a dehongli gwybodaeth am yr anifail o'r ffynonellau perthnasol, gallai hyn fod yn berchennog, ceidwad neu weithwyr milfeddygol proffesiynol
7. asesu galluogrwydd a photensial yr unigolion sydd eisiau gweithio gydag anifeiliaid
8. asesu anghenion hyfforddiant yr unigolion a'r anifeiliaid a sefydlu amcanion hyfforddiant
9. ddylunio rhaglen hyfforddiant sydd yn berthnasol i amcanion gofynnol yr unigolyn sydd eisiau gweithio gydag anifeiliaid
10. gwerthuso dylanwadau amgylcheddol a dewis gweithgareddau a dulliau hyfforddi addas i gyflawni'r canlyniad dymunol
11. nodi'r adnoddau sydd yn angenrheidiol ar gyfer y gweithgareddau hyfforddiant
12. trafod a chytuno ar y rhaglen hyfforddiant gyda'r unigolion sydd eisiau gweithio gydag anifeiliaid, gan ofalu cadarnhau eu bod yn deall eu rôl yn y canlyniadau a'r targedau a cytunwyd arnynt
13. asesu'r canlyniadau lles posibl ar yr anifail o ganlyniad i'r dull hyfforddi a'r cyfarpar a ddewisir, ac unioni unrhyw broblemau
14. cael adborth ar gynnydd yr hyfforddiant, yn cynnwys iechyd ac ymddygiad yr anifail ac addasu'r rhaglen hyfforddiant os oes angen
15. gwerthuso a chofnodi canlyniad yr hyfforddiant yn erbyn y rhaglen yn rheolaidd,

a gweithredu i ddatrys sefyllfaoedd lle canfyddir bod gweithgareddau, dulliau neu adnoddau hyfforddi yn anaddas

16. parhau i gyfathrebu gyda chydweithwyr a phawb sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo, a chael cyngor proffesiynol lle bo angen, gan atgyfeirio achosion lle bo angen

17. cadarnhau bod cofnodion yn cael eu rheoli a'u cadw fel sydd yn ofynnol gan y ddeddfwriaeth berthnasol a pholisi sefydliadol

18. cynllunio, cofnodi, gwerthuso ac adlewyrchu ar eich Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) a gweithio o fewn gofynion y sefydliad proffesiynol perthnasol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. eich cyfrifoldebau proffesiynol wrth ddylunio a gwerthuso rhaglenni hyfforddiant a therfynau eich awdurdod, arbenigedd, hyfforddiant, cymhwysedd a'ch profiad
2. eich cyfrifoldebau yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol iechyd a lles anifeiliaid ac yn ymwneud ag anifeiliaid, codau ymarfer cysylltiedig a chyfyngiadau cyfreithiol y Ddeddf Llawfeddygon Milfeddygol bresennol
3. eich cyfrifoldebau yn unol â'r ddeddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch, gofynion asesu risg, codau ymarfer cysylltiedig a pholisïau sefydliadol
4. pwysigrwydd diogelwch yswiriant, yn cynnwys indemnedd proffesiynol
5. y ffordd y gallai anghenion lles yr anifeiliaid yr ydych yn gweithio gyda nhw gael eu gwerthuso a'u trin
6. sut i sicrhau bod lles yr anifail yn cael ei gynnal trwy gydol y rhaglen hyfforddiant a sut i wybod pryd y gallai eich ymddygiad neu ymddygiad y rheiny sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, achosi adweithiau niweidiol, ofn neu drallod yn yr anifail
7. dibenion a fwriadwyd ar gyfer y rhaglen hyfforddiant a sut i nodi amcanion y rhaglen hyfforddiant er mwyn i unigolion allu gweithio gydag anifeiliaid
8. sut i gael gwybodaeth am yr anifail a sut gallai'r wybodaeth hon effeithio ar ddyluniad rhaglen hyfforddiant
9. ymddygiad arferol, iaith corff a dulliau cyfathrebu yr anifail sydd angen hyfforddiant
10. pwysigrwydd asesu'r unigolion sydd eisiau gweithio gydag anifeiliaid a sut i ddewis dulliau asesu addas
11. y ffordd y mae unigolion ac anifeiliaid yn dysgu'r ffactorau corfforol, seicolegol ac amgylcheddol sydd yn effeithio ar ddysgu
12. sut i ddylunio rhaglen hyfforddiant gyda thargedau hyfforddi realistig ar y cyd â'r unigolion cysylltiedig
13. y broses o sefydlu nodau ac amcanion mesuradwy ar gyfer hyfforddi unigolion sydd yn gweithio gydag anifeiliaid
14. sut i ddewis gweithgareddau hyfforddi, dulliau ac adnoddau perthnasol ar gyfer yr hyfforddiant, a phwysigrwydd asesu addasrwydd yr unigolion a'r anifeiliaid ac unioni unrhyw faterion
15. egwyddorion a chymhwysiad ymarferol damcaniaeth ddysgu

16. pwysigrwydd monitro a gwerthuso'r broses hyfforddi a sut i adolygu'r rhaglen hyfforddiant lle bo angen
17. sut i wybod pryd gall canlyniadau hyffordddiant ddangos nad yw'r unigolion a/neu'r anifeiliaid yn addas ar gyfer y gweithgaredd neu i weithio gyda'i gilydd
18. pwysigrwydd parhau i gyfathrebu gyda'r rheiny sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo, a'r ffordd orau o wneud hyn
19. ble i gael cyngor ac arweiniad proffesiynol a rôl cyrff a chymdeithasau proffesiynol
20.
y cofnodion y mae angen eu cadw mewn perthynas â dylunio a gwerthuso rhaglenni hyfforddiant a phwysigrwydd cwblhau'r rhain yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a pholisi sefydliadol
21.
eich cyfrifoldebau proffesiynol a phwysigrwydd Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) i gynnal cymhwysedd proffesiynol

## Cwmpas/Ystod

**Gwybodaeth berthnasol am yr anifail:**

1. hanes bywyd
2. galluoedd corfforol
3. oed
4. iechyd
5. deiet
6. statws atgenhedlu
7. cyfnod hormonaidd
8. lefel hyfforddiant bresennol
9. natur/nodweddion
10. rhywogaethau, brîd a rhieni
11. hanes meddygol
12. ysgogwyr ysgogiadol ac effeithiau
13. amgylchedd – byw, gweithio, hyfforddi/dysgu
14. deddfwriaeth

**Galluoedd a photensial yr unigolion:**

1. anghenion corfforol y person
2. anghenion dysgu y person
3. anghenion seicolegol y person

**Adnoddau:**

1. personél
2. cymhorthion/cyfarpar hyfforddiant
3. cymhorthion/cyfarpar trafod
4. Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)

## Geirfa

**Gallai deddfwriaith lles anifeiliaid fod fel a ganlyn:**

- Deddf Llawfeddygon Milfeddygol
- Cymru a Lloegr, Deddf Lles Anifeiliaid
- Yr Alban, Deddf Iechyd a Lles Anifeiliaid
- Gogledd Iwerddon, Deddf Lles Anifeiliaid (Gogledd Iwerddon)

LANAnC46

Dylunio a gwerthuso rhaglenni hyfforddiant ar gyfer unigolion sydd yn gweithio gydag anifeiliaid

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Chwef 2020 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Chwef 2025 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANAnC53 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Hyfforddiant ac Ymddygiad Cŵn, Hyfforddiant ac Ymddygiad Anifeiliaid, Anifeiliaid mewn Addysg ac Adloniant |
| **Cyfres/Set** | Gweithgareddau Milfeddygol Lled-broffesiynol, Gofal a Lles Anifeiliaid |
| **Geiriau Allweddol** | anifail; hyfforddiant; unigolion |